

# Gorwelion

Cylchlythyr i Gefnogwyr **Met Caerdydd**

Rhifyn 09 | Haf 2015

## Rhoddion yn galluogi *Ymchwil Blaenllaw i Efeibrosis Systig ym Met Caerdydd*

Mae grantiau diweddar gan Sefydliad Waterloo a Sefydliad Jane Hodge wedi golygu y gellir cynnal astudiaeth ymchwil i ddull hollol newydd o reoli heintiau cronig ymysg cleifion ffeibrosis systig. Bydd yr astudiaeth yn edrych ar ffyrdd y gall mêl manwca wella canlyniadau i gleifion ffeibrosis systig sy'n cael trawsblaniad yr ysgyfaint...

Parhad ar Dudalen 3

150  
Years  
Mlynedd

Cardiff  
Met  
Caerdydd



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith ein gweithgarwch ar yr amgylchedd. Os byddai'n well gennyh dderbyn y Cylchlythyr hwn drwy e-bost, rhowch wybod i ni.

Cylchlythyr Gorwelion  
yn Saesneg:  
[www.cardiffmet.ac.uk/horizons](http://www.cardiffmet.ac.uk/horizons)

Os hoffech gysylltu â ni, gallwch anfon e-bost i: [developmentoffice@cardiffmet.ac.uk](mailto:developmentoffice@cardiffmet.ac.uk) neu ffonio 029 2020 1590.

Neu, ysgrifennwch atom yn: Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrrwr, Campws Cyncoed, Cyncoed Road, Caerdydd, CF23 6XD

Am ragor o wybodaeth am ein gweithgareddau codi arian, ewch i'n gwefan: [www.cardiffmet.ac.uk/supportus](http://www.cardiffmet.ac.uk/supportus)



Cofiwch fod modd ein gweld ar:

 [www.Linkedin.com](http://www.Linkedin.com)

 [www.facebook.com/cardiffmetalumni](http://www.facebook.com/cardiffmetalumni)

 [www.twitter.com/CMetAlumni](http://www.twitter.com/CMetAlumni)



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r rhifyn hwn o Gorwelion i chi sydd â'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y prosiectau arloesol a gwerth chweil y mae eich rhoddion yn helpu i'w cefnogi yma ym Met Caerdydd. Os ydych yn darllen hwn am y tro cyntaf - efallai ar ôl galwad yn ystod ein hymgyrch ffonio yn y gwanwyn - croeso i'n cymuned o gefnogwyr Met Caerdydd!

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n newid bywydau sy'n bosibl oherwydd eich rhoddion chi. Yn Llandaf, mae'r Ysgol Gwyddorau lechyd yn cynnal ymchwil arloesol i Ffeibrosis Systig. Mae rhoddion yn galluogi graddedigion newydd i gael blwyddyn 'Ddeori' yn adeilad newydd Ysgol Gelf a Dylunio

Caerdydd. Yng Nghyncoed, mae'r Ganolfan Dysgu Awyr Agored bellach yn cael ei defnyddio, gan gyflwyno addysg Ysgol Goedwig i'r genhedlaeth nesaf o athrawon a phlant ysgol gynradd o'r gymuned leol. Mae'r Gronfa Caledi Myfyrrwyr yn cefnogi myfyrrwyr o bob disgyblaeth sy'n wynebu anawsterau ariannol.

Mae'r Gronfa Ddatblygu yn rhan bwysig iawn o'r gwaith o gyfrannu at y cyfleoedd hyn ac ni fyddem yn gallu cyflawni ein dyheadau heb yr arian sydd ar gael drwy gefnogaeth ein rhoddwyr hynod hael.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am sut rydych yn gwneud gwahaniaeth. Os hoffech alw draw am goffi ac ymweld â'r campws, byddem wrth ein bodd yn eich gweld.

Diolch!

Andrew Walker (HCIMA 1984)  
Cyfarwyddwr Ymgysylltu Allanol  
[awalker@cardiffmet.ac.uk](mailto:awalker@cardiffmet.ac.uk)

## Cymorth Rhodd *giftaid it* a Rhyddhad Treth i Roddwyr

Cofiwch os ydych yn drethdalwr y DU, gall y Brifysgol hawlio Cymorth Rhodd. Bydd y cynllun hwn gan y llywodraeth yn golygu bod eich rhodd yn werth 25% yn fwy i ni ond ni fydd yn golygu cost ychwanegol i chi! Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw llenwi'r adran Cymorth Rhodd o'r ffurflen rodd neu rhowch wybod i ni ar lafar eich bod am i ni hawlio Cymorth Rhodd ar eich rhan. Os ydych yn drethdalwr Cyfradd Uwch, gallwch hefyd ofyn am ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd sylfaenol a'r gyfradd uwch pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflenni treth. Gallwn hefyd dderbyn rhoddion o gyfranddaliadau, gwarannau a buddsoddiadau eraill sydd hefyd yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth.



"Mae'r tîm wedi cyffroi'n fawr ein bod wedi cael y cyfle i wneud y gwaith ymchwil hwn ac rydym yn hyderus y caiff y data rydym yn eu casglu eu defnyddio yn y dyfodol i effeithio'n gadarnhaol ar driniaeth ar gyfer y sawl sydd â Ffeibrosis Systig."

Rowena Jenkins,  
Darlithydd mewn Microbioleg

# Eich Cefnogaeth i Waith Ymchwil: Trawsnewid Bywydau Cleifion Ffeibrosis Systig Cystic Fibrosis Patients

...Parhad o'r dudalen flaen

Ffeibrosis Systig yw'r clefyd etifeddol mwyaf cyffredin sy'n peryglu bywyd ymysg pobl Cawcasaidd a chaiff ei achosi drwy nam yn y broses o drosglwyddo ïonau, sy'n arwain at rwystro'r llwybrau anadlu. Mae dros 9000 o gleifion â Ffeibrosis Systig yn y DU a 34.4 o flynyddoedd yw'r gyfradd orosi ganolrifol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gyda'r gwelliannau mewn triniaethau a ganfyddir mewn Prifysgolion fel Met Caerdydd, disgwylir i blentyn a gaiff ei eni gyda Ffeibrosis Systig yn y flwyddyn 2000 fyw hyd at ei 50au. Un maes lle gwelwyd gwelliant mewn gofal yw'r driniaeth ymosodol o haint bacteriol pwlmonaidd â gwrthfotigau er mwyn lleihau effaith yr haint yn y

llwybrau anadlu drwy atal neu ohirio heintiau cronig yr ysgyfaint.




Mae mêl yn feddyginiaeth hynafol y profwyd bod ganddo weithgarwch gwrthficrobaidd sylweddol ar draws ystod eang o ficro-organebau. Mae bellach wedi'i drwyddedu fel cynnyrch meddygol a chaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth ofalu am heintiau mewn anafiadau cyffredin ledled y byd. Mae'r Tîm Ymchwil i Ficrobioleg a Heintiau ym Met Caerdydd wedi bod yn ymchwilio i effaith wrthficrobaidd mêl manwca ac mae wedi dangos ei

effeithiolrwydd yn erbyn amrywiaeth o bathogenau.

Nod y prosiect hwn yw ymchwilio i gyfuniadau o fêl manwca ag asiantau gwrthficrobaidd eraill er mwyn canfod pa mor effeithiol y byddant yn erbyn pathogenau arwahanedig i gleifion Ffeibrosis Systig. Cynhelir yr ymchwil hon gyda'r bwriad o ddadheintio llwybr anadlu uchaf cleifion Ffeibrosis Systig. Pe byddai'n llwyddiannus byddai'n nodi cyfuniadau arloesol y gellid eu hintegreiddio'n gyflym mewn arfer clinigol ar ôl cynnal treialon clinigol. Mae hwn yn ddull hollol newydd o reoli heintiau cronig ymysg cleifion ffeibrosis systig, ac mae ganddo'r potensial o drawsnewid canlyniadau i'r sawl sydd â'r clefyd.





# Eich cefnogaeth i'r Gymuned: Canolfan Dysgu Awyr Agored Cyncoed yn Agor!

**Mae'r Ganolfan Dysgu Awyr Agored wedi agor bellach diolch i roddion gan y Gronfa Ddatblygu, Sefydliad Waterloo, Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson ac Ymddiriedolaeth Oakdale.**

Mae Dysgu Awyr Agored ac Addysg Ysgol Goedwig yn pwysleisio dysgu drwy ddarganfod wedi'i arwain gan y plentyn, ac yn hyrwyddo ac yn datblygu ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg plant. Mae gan Ysgol Addysg Met Caerdydd dîm ymroddedig sy'n cynnal ystod eang o weithgareddau Dysgu Awyr Agored ac Ysgol Goedwig ar y campws i blant, pobl ifanc a grwpiau cymunedol. Ymysg y gweithgareddau mae nodi ac arsylwi bywyd gwyllt a phlanhigion, gwneud blychau adar, chwarae, archwilio, a chwilio am goed tân. Mae'r tîm hefyd yn darparu hyfforddiant mewn Dysgu Awyr Agored i athrawon, ymarferwyr a myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yr Ysgol Addysg ei hun.

Bydd creu adeilad Canolfan Dysgu Awyr Agored yn gadael gwaddol parhaol i'r miloedd o blant a phobl ifanc a fydd yn elwa wrth i fydoedd newydd gael eu hagor iddynt: byd naturiol y goedwig, byd eu treftadaeth a brofir drwy adrodd straeon, a byd addysg uwch. I lawer o ddisgyblion ysgol o gymdogaethau trefol, y rhaglen yw eu cyfle cyntaf i ddarganfod amgylchedd coetir. Bydd y Ganolfan hefyd yn cyflwyno buddiannau dysgu a darganfod yn yr awyr agored i'r genhedlaeth nesaf o athrawon a gweithwyr plant.

Eleni, mae mwy na 1,000 o blant a phobl ifanc eisoes wedi elwa ar Ddysgu Awyr Agored. Bydd creu'r adeilad newydd yn galluogi llawer mwy o blant a phobl ifanc i elwa ar y rhaglen eleni ac am flynyddoedd i ddod, wrth i fwy o brosiectau a gweithgareddau newydd gael eu hychwanegu at y rhaglen.

Diolch!



Myfyrwyr a Fu'n Ffonio yn ystod 2015 (o'r brig, chwith i dde: Helen, Andrea, Beverley, Ellis, Muireann, Rob D, Rebecca, Lottie, Jade H, Avril, Kirstine, Jess, Annie, David, Lucy, Sarah, Sammy, Grace, Connor, Jade M, Brittany, Rob M)

## Ymgyrch Ffôn 2015

Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn ein Hymgyrch Ffonio Cyn-fyfywrwyr yn ystod y gwanwyn.

Rhwng dydd Sadwrn 21 Chwefror a dydd Sul 8 Mawrth, siaradodd 22 o fyfyrwyr presennol Met Caerdydd o bum ysgol academaidd â channoedd o'n cyn-fyfywrwyr gan gynnal sgrysiâu sy'n newid bywydau.

Roedd y galwadau ffôn yn gyfle gwych i'n myfyrwyr rwydweithio â chyn-fyfywrwyr Met Caerdydd sydd wedi datblygu o fan cychwyn tebyg iawn i ddilyn ystod eang o lwybrau gyrfa.

Cawsom ein syfrdanu gan eich cefnogaeth - gwirfoddolodd 127 o gyn-fyfywrwyr i weithio'n uniongyrchol gyda'n myfyrwyr drwy ddigwyddiadau mentora, darlithoedd gwadd, neu ddigwyddiadau rhwydweithio ac addunedwyd dros £26,000 i'r

Gronfa Ddatblygu. Os gwnaethoch siarad ag un o'n myfyrwyr ac os hoffech roi wyneb i enw, mae eu holl broffiliau ar Dudalen Facebook Cyn-fyfywrwyr Met Caerdydd.

Os hoffech gael cyfle i ysbrydoli un o'n myfyrwyr presennol mewn ymgyrch ffôn yn y dyfodol, e-bostiwch [developmentoffice@cardiffmet.ac.uk](mailto:developmentoffice@cardiffmet.ac.uk) a byddwn yn sicrhau eich bod yn cael galwad.

Hoffem ddiolch hefyd i holl noddwyr ein hymgyrch ffôn sydd i'w gweld yn ein Rhestr o Gefnogwyr ar dudalen 9.

### Cyflogeion Myfyrwyr y Flwyddyn!

Mae ein tîm ffonio o fyfyrwyr wedi cael eu cydnabod ar lefel genedlaethol yng Ngwobrau Cyflogeion Myfyrwyr y Flwyddyn am eu gwaith caled yn ystod yr

Ymgyrch Ffonio Cyn-fyfywrwyr. Enillodd Rob Mant y wobwr ranbarthol a chenedlaethol yn y categori 'Camu ymlaen tuag at arwain' ar ôl i'r tîm ei ddewis fel y chwaraewr tîm mwyaf brwdfrydig a chefnogol yn ystod yr ymgyrch. Enwebwyd yr holl dîm yn y categori 'Effaith Fasnachol', ac enillodd rowndiau sefydliadol a rhanbarthol y gystadleuaeth. Cawsant hefyd y wobwr 'Canmoliaeth Uchel' ar lefel genedlaethol. Cafodd Beverley hefyd 'Canmoliaeth Uchel' ar lefel sefydliadol yn y categori 'Cam Ychwanegol'.

Rydym yn aros i glywed a gaiff Rob ei goroni yn 'Cyflogai Myfyriwr y Flwyddyn' ledled y DU yn y seremoni wobrwyo yn Lerpwl ymhen rhai wythnosau. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.



"Er ei bod yn bythefnos ddwys, roedd yn brofiad gwych a chefais gymaint o fudd ohono - o ran gwneud ffrindiau newydd a datblygu sgiliau newydd. Roedd rhai o'r cyn-fyfyrwyr y bûm yn siarad â hwy yn ysbrydoliaeth."

Jade Heffron  
Myfyriwr a Fu'n Ffonio.



## Eich Cefnogaeth i Gyfiawnder Cymdeithasol: Apêl Caledi Myfyrwyr

Cawsom ein syfrdanu gan yr ymateb anhygoel i'n hapêl ar gyfer y Gronfa Caledi Myfyrwyr. Gyda Chronfa Ariannol Wrth Gefn Llywodraeth Cymru yn debygol o gael ei dileu ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd hon, mae Cronfa Caledi Myfyrwyr Met Caerdydd yn bwysicach nag erioed nawr. Diolch i'r rheini ohonoch a gynigiodd helpu drwy ymateb i lythyr, e-bost neu boster. Mae mwy na 120 o gyn-fyfyrwyr a staff wedi sefydlu rhoddion misol rheolaidd a gaiff eu cyfeirio at fyfyrwyr mewn argyfwng ariannol. Bydd hyn yn effeithio mewn modd chwyldroadol ar fyfyrwyr sy'n wynebu'r risg o orfod rhoi'r gorau i'r brifysgol am resymau ariannol.



# Eich Cefnogaeth i Gyfleoedd: Bwrsariau Deori i Raddedigion

Cwblhaodd Laura Smith ei MSc mewn Dylunio Cynnyrch Uwch y Llynedd, a dyma ei blwyddyn gyntaf mewn busnes yn gwneud ac yn gwerthu cytiau ffasiynol i anifeiliaid.

Eleni, mae'r Gronfa Ddatblygu wedi dyrannu arian ar gyfer dau fwrsari yn Uned Deori i Raddedigion Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd. Mae'r uned yn rhoi gofod stiwdio a mynediad i gyfleusterau, cymorth dechrau busnes a mentora creadigol i raddedigion Celf a Dylunio diweddar er mwyn eu helpu yn ystod eu blwyddyn gyntaf fel entrepreneuriaid ac ymarferwyr.

Mae'r rhaglen ar gyfer graddedigion diweddar sy'n awyddus i redeg eu hasiantaeth dylunio eu hunain, gwneud bywoliaeth fel peintiwr, gwneuthurwr printiau neu seramegydd, rhedeg gweithdai i'r gymuned leol neu gael syniad arall am sut y gallant sefydlu

busnes ar eu pen eu hunain.

Mae'n bleser gennym nodi y bydd saith bwrsari ychwanegol ar gael ym mis Medi, un gan Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, un gan Santander a phump gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Fenton sydd am gefnogi graddedigion o'r rhaglenni Serameg, Artist-ddylunydd: Gwneuthurwr a Chelfyddyd Gain.



"Dydw i ddim yn meddwl y byddwn wedi gallu gwneud hyn ar fy mhen fy hun. Pe byddwn wedi gorffen fy ngradd a phenderfynu dechrau busnes, fyddai gen i ddim syniad beth i'w wneud. Mae'r gefnogaeth rwyf wedi'i chael gan fy mentoriaid mewnol ac allanol eleni wedi bod yn werthfawr iawn. Diolch!"

Laura Smith  
Dylunydd Cynnyrch Llawrydd





# Ein Cefnogwyr

Hoffai Prifysgol Metropolitan Caerdydd ddiolch i'r holl gyn-fyfyrwyr, ffrindiau a sefydliadau am eu haelioni dros y 12 mis diwethaf. Gyda chymorth dyngarol, gallwn barhau i fod yn brifysgol wirioneddol flaengar. DS Mae'r enwau mewn print amlwg yn aelodau o staff Met Caerdydd.

## Unigolion

Abbey Abbass  
 Emma Adamson  
 Elaine Christine Addams  
 MRSH  
 David Aldous  
 Jack Allen  
 Deborah Alsop  
 David Alvarez  
 Mohammad Amin  
 Pauline Andam  
 Neil Anderson  
 Timothy Andradi  
 Claire Andrews  
 Maureen Angell-Rees  
 Charlotte Arundel  
 Rebecca Bailie  
 Nicholas Baker  
 Emma Baker  
 David Banks  
 Sandra Barry  
 Audrey Baynton  
 Janet Beauchamp  
 Christopher Benbow  
 Rachel Bennett  
 David Benson  
 Ethne Biggs  
 Helen Blockwell  
 Nicola Bolton  
 Caroline Bovey  
 Susan Bowcott  
 Denise Bridgeman  
 Isabelle Brook  
 David Brooksbank  
 Jane Brown  
 Sarah Brown  
 Anna Bryant  
 Charlotte Bull  
 Esther Burke  
 Katie Burton  
 Margaret Cameron

Helena Cannon  
 John Cappock  
 William Carew-Gibbs  
 Abigail Sophie Carpenter  
 Gavin Cawood  
 Antony Chapman  
 Luke Chatterton  
 Sheila Clark  
 David Cobner  
 Patricia Cole  
 Robert Coles  
 Susan Connell  
 Debbie Cooke  
 Louise Coombs  
 Lisa Corcoran  
 John Counsell  
 Gemma Crooks  
 Helen Crotty  
 Robert Cummings  
 Helen Dale Burton  
 Daniel Davies  
 Jason Davies  
 Katie Davies  
 Warren Davies  
 Philip Davies  
 Louise Davies  
 Lynn Davies CBE  
 Fiona Diffey  
 Marcus Donoghue  
 Susan Doran  
 Jane Dorrian  
 Adam Douglas  
 Michelle Doyle  
 James Driscoll  
 Gerry Duckworth  
 Sandra Dumitrescu  
 Michael Dunn  
 Jeffrey Edgson  
 Sian M Edwards  
 Gareth Edwards CBE  
 Colin Elliott

Victoria Ellis  
 Peter Ellis  
 Maria Etift  
 Sheona Evans  
 Anne Evans  
 Paul Evans  
 Edryd I Evans  
 Rhydian Fairfax  
 Ashley Finn  
 Ann Fitzjohn  
 Paul Fitzpatrick  
 Laura Flounders  
 Andrea Christine Flower  
 Ruth Foster  
 Michael Fountain  
 Janette Francis  
 Kathryn Francis  
 Janet Gardner  
 David Garwood  
 Sarah Garwood  
 Chetan Geisel  
 Marcia Gilbert  
 Andrew Goddard  
 Jennifer Godfrey  
 Eilidh Gordon  
 Matthew Green  
 Teresa Green  
 Louise Griffin  
 Barrie Griffiths  
 Gwyn Griffiths  
 Peter Griffiths  
 Alison Grosvenor  
 Jamie Grundy  
 Katherine Gullett  
 Cecilia Hannigan-Davies  
 Andrew K Hardwick  
 Jacqui Hare  
 Gordon Harrhy  
 Catherine Harrison  
 David Hathaway  
 Elizabeth Hayes

Sally Hicks  
 Anthony Hile  
 Isabel Hitchman  
 Naomi Hobbs  
 Michael Hodgson  
 David Hollisley-Mclean  
 Gareth Holtam  
 Sarah Hopkins  
 Marcia Howells  
 Robert Hudson  
 Benjamin Hughes  
 Jenine Hughes  
 Barbara Hunter  
 Peter Jakobek  
 Anthony James  
 Gwawr James  
 Gary James  
 Paul Janes  
 Samuel Jenkins  
 John Jenkins  
 Christopher Jennings  
 Peter Jerome  
 Rittu Joel  
 Vicki Johansen  
 Gareth Johns  
 Helen Jones  
 Matthew Jones  
 Ann Jones  
 Lynsey Jones  
 Angela Jones  
 Rowan Jones  
 Nathan Jones  
 Clare Jones  
 Neil Jones  
 Anthony Jones  
 Paul Keetch  
 Janet Keggie  
 Fahmin Khanum

Claire Kingsford  
Keisha Kirby  
Chrisoula Konstantakou  
Christopher M Lander  
Ceri Landers  
Janice Lawrence  
Joanne Lewis  
Daniel Lewis  
Gillian Lewis  
Rachel Lintell  
Sidney Llewellyn  
Lilwen Llewelyn  
Carole Lloyd  
Elaine Lloyd  
Teresa Lloyd-Cox  
Julie Lockwood  
Elizabeth Loly  
Julia Longville  
Vernon Luxmikanthan  
Amanda Lynch  
Margaret Lynn  
Claire Maddern  
Lowri Mainwaring  
Ifan Marklew  
John Marsden  
Ian Mathieson  
Margaret Matthews  
David R Maylor  
Samantha McAlister  
Wilson  
Fiona Mckenzie  
Andrew McMahan  
Victoria Meah  
Maurice Melia  
Ian Miles  
Helen Miles  
Malcolm Miles  
Carla Morgan  
John B Morgan  
Sarah Morgan  
Keith Morris  
Tracey Morris  
Judith Olwen Moseley  
Rhiannydd Mounter  
Helen Murphy  
Gary Newman  
Peter O'Donoghue  
Allison O'Reilly  
Sue Owen  
Kathryn Owen  
Caroline Page  
Elaine Parke  
Judith Paterson

Neil Pedder  
Catherine Pepin  
Dennis Perrott  
Thomas Petchey  
Adrian Peters  
Ian Phillips  
Sarah Philpott  
Jayne Pierce  
Luk-May Pope  
Lloyd Powell  
Danny Prescott  
David Price  
Sarah Price  
Johanna Raffan  
Marc Randall  
Linda Rathkey  
Christine Rees  
Stuart Rees  
Clare Richards  
Victoria Richards  
Anthony Richards  
Marilyn A Rimell  
Caroline Ritchie  
Richard Roberts  
Hayley Rogers  
Natalie Romero  
Sarah Rose  
Rosemary Rowland  
Mary Rumbold  
Lalage Sanders  
Debbie Savage  
Timothy Savage  
Peter Scammell  
James Scott  
Caryl Screation  
Paras Shah  
Matthew Sharpe  
Janette Shaw  
Kevin Shore  
Ceri Sinderby  
Deiniol Skillicorn  
Alice Sockett  
Stephanie Songhurst  
James Stanley  
Philip J Steele  
Beverley Steer  
Amy Stephens  
Barrie Stephens  
Janet Stroud  
Andrew Sydenham  
Angharad Taylor  
Edward Taylor  
Amelia Taylor

Jeff Taylor  
Howard Tear  
Natalie Thomas  
Rachel Thomas  
Eirian A Thomas  
Laraine Thorpe  
Gaynor Toft  
Richard Tong  
Ann Tonge  
Rebecca Toozer  
Kerry Townley  
Abigail Townsend  
James Tranter  
Stuart Turner  
Alison Twyman  
Garry Veale  
Janet M Vokes  
Andrew Walker  
Dale Walker  
Frances Walker  
Andrew Walker  
Henry Waller  
Andrew Walters  
Emma Walters  
Andrew A Ward  
Mick Ward  
Deborah Weids  
Ian Weir  
Joseph Wells  
Anne Welsh  
Kate Welsh  
Sharon Whyte  
Graham Wigley  
Robert Willcock  
Carwyn Williams  
Elis Williams  
John Williams  
Brian Williams  
Gail P Williams  
Carol Williams  
Amy Williams-Pring  
Sharon Willis  
Emma Wiltshire  
Chantal Wood  
Christopher Young  
Janet Young  
Ryan Young  
51 anonymous donors

## **Sefydliadau**

Abbott Nutrition  
Austin-Smith:Lord LLP  
Avaya

Blake Morgan  
Campus Clothing  
Chapter  
Ede & Ravenscroft  
Effective Communication  
Fairwood Trust  
Food Partners Group  
Glen Group  
Hilton  
Holiday Inn  
Hospital Innovations  
LexisNexis  
Motorpoint Arena  
Nandos  
New Theatre  
Park Plaza  
Phil Boorman Photography  
Princes Gate Spring Water  
Pryzm  
Radisson Blu  
Raspberry Pi Foundation  
Rayne Foundation  
Rhondda Cynon Taf Local  
Authority  
Rotary Club of Cardiff:  
City of Llandaff  
SA Brain & Co Ltd  
Santander UK plc  
Savoy Educational Trust  
Semaphore Display  
Simon Gibson  
Charitable Trust  
Sodexo  
Solo Service Group  
Spire Healthcare  
T. A. Roden LTD  
Tesco Charity Trust  
The Fenton Arts Trust  
The Jane Hodge  
Foundation  
The Lord Forte  
Foundation  
The Maltings Limited  
The Oakdale Trust  
The Waterloo Foundation  
Tusk Teamwear  
Tillery Valley  
TWL Voice and Data  
VINCI Park Sevcies UK Ltd  
Wales Millennium Centre  
Willmott Dixon  
Construction  
Zenith Media  
1 rhoddwyr dienw



# Rhoi Addysg Dyfodol Rhodd yn eich ewyllys

Call rhodd addysg newid bywyd. Gyda'ch help chi, gallwn newid bywydau gyda'n gilydd.

Ar ôl gofalu am eich teulu a'ch ffrindiau, ystyriwch adael rhodd yn eich ewyllys i gefnogi ysgoloriaethau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd eich cefnogaeth yn rhoi cyfle am ddyfodol gwell.

Wyddech chi, drwy adael 10% o'ch ystâd drethadwy i elusen, y gallech gynyddu'r swm y bydd eich buddiolwyr eraill yn ei gael? Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar adael rhodd yn eich ewyllys i'n cefnogi ni, cysylltwch â'r Rheolwr Datblygu ar **029 2020 1590**  
or **developmentoffice@cardiffmet.ac.uk**

**[www.cardiffmet.ac.uk/supportus](http://www.cardiffmet.ac.uk/supportus)**  
Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1140762

# Darlithoedd a Digwyddiadau Cyhoeddus Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## Aduniad Dosbarth 1975

**Dyddiad:** Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf

**Leoliad:** Campws Cyncoed

## Diwrnod Agored Sioe Meistri Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

**Dyddiad:** Dydd Sadwrn 5 Medi

**Leoliad:** Campws Llandaf

## Darlith Gyhoeddus Dathlu 150 o flynyddoedd gyda John Cridland

**Dyddiad:** Dydd Mercher 7 Hydref

**Amser:** 5.45pm i ddechrau am 6pm

**Leoliad:** Campws Llandaf

## Darlith Agoriadol ac Athrawol gyda'r Athro Cathy Treadaway

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Hydref

**Amser:** 5.45pm i ddechrau am 6pm

**Leoliad:** Campws Llandaf

## Gwasanaeth Carolau Nadolig i Ddathlu 150 o flynyddoedd

**Dyddiad:** Dydd Gwener 4 Rhagfyr

**Leoliad:** Eglwys Gadeiriol Llandaf



Mae lleoedd ar gael am ddim ac fe'u cynigir ar sail y cyntaf i'r felin.

I archebu ar-lein, ewch i [www.cardiffmet.ac.uk/lectures](http://www.cardiffmet.ac.uk/lectures)

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Caryn Blunt ar [pandilectures@cardiffmet.ac.uk](mailto:pandilectures@cardiffmet.ac.uk) or 029 2041 6052

## Sut y gallwch ein cefnogi

Er mwyn gwneud gwahaniaeth heddiw, cwblhewch y ffurflen hon a'i dychwelyd i: Swyddfa Datblygu, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed, Caerdydd, CF23 6XD. Gallwch hefyd roi ar-lein yn [www.cardiffmet.ac.uk/supportus](http://www.cardiffmet.ac.uk/supportus)

### Eich Manylion

Enw Llawn: .....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad: .....

.....

Cod post: ..... Rhif ffôn: .....

E-bost: .....

### Beth fyddai orau gennyhch

Hoffwn i'm rhodd fynd i:

Y Gronfa Ddatblygu  Ble bynnag y mae ei hangen fwyaf  Arall:

(nodwch): .....

.....

Hoffwn i'm rhodd aros yn anhysbys

Anfonwch wybodaeth ataf am adael rhodd yn fy ewyllys i Brifysgol Metropolitan Caerdydd

### Rhodd Unigol

Hoffwn roi rhodd unigol i Brifysgol Metropolitan Caerdydd

£

Hoffwn dalu drwy: (ticiwch)  Siec  Visa

Mastercard  CAF/ Taleb  Maestro

Dylid gwneud sieciau/talebau yn daladwy i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rhif y cerdyn:

Rhif diogelwch:    Tri digid olaf ar sribed y llofnod

Dyddiad Dechrau: ...../...../..... Dyddiad Dod i Ben: ...../...../.....

Rhif Cyhoeddi: .....

Enw a llythrennau blaen deiliad y cerdyn: .....

Llofnod(ion): .....

Dyddiad: .....

### Datganiad Cymorth Rhodd - Gwneud i'ch rhodd fynd ymhellach

Mae Cymorth Rhodd yn golygu, am bob punt a roddwch, y byddwn yn cael 25c yn ychwanegol gan Gyllid a Thollau EM, heb unrhyw gost ychwanegol i chi. Mae hyn yn golygu bod £10 yn werth £12.50 i Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Os hoffech i'ch rhodd fynd ymhellach, rhowch Gymorth Rhodd. Yr unig beth sydd ei angen arnom yw eich llofnod.

Adenillwch dreth ar y rhodd hon ac ar bob rhodd gennyf yn y gorffennol a'r dyfodol. (Rwyf wedi talu neu byddaf yn talu swm o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU am bob blwyddyn dreth sydd o leiaf yn gyfwerth â swm y dreth y bydd yr holl elusennau neu Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd y byddaf yn rhoi rhodd iddynt yn ei adennill ar fy rhoddion am y flwyddyn dreth honno. Rwy'n deall nad yw Treth Gyngor a TAW yn cyfrif.)

Llofnod(ion): .....Dyddiad: .....

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1140762

